DATGANIAD NEWYDDION

Cyhoeddwyd gan y
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 St Andrews Place
Caerdydd
CF10 3BE

Ffôn 02920 395031
Ffacs 02920 395250
Dyddiad 25 Awst 2004

ARGYMHELLION TERFYNOL AR GYFER ETHOLAETHAU SENEDDOL YN SIR GADWEDIG POWYS

Nid yw'r Comisiwn yn bwriadu gwneud unrhyw newid i'w argymhellion dros dro ar gyfer dwy etholaeth yn sir gadwedig Powys.

1. Cyhoeddwyd argymhellion dros dro mewn perthynas â Phowys ar 5 Ionawr 2004. Cafodd y Comisiwn wyth o gynrychiolaethau, yr oedd chwech ohonynt yn cefnogi eu hargymhellion dros dro. Gwrthwynebodd un gynrychiolaeth i gynnwys adran etholiadol Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin o fewn etholaeth Montgomeryshire ac awgrymodd un gynrychiolaeth fân newidiadau i'r ffin rhwng etholaethau Montgomeryshire a Brecon and Radnorshire.

2. Nodwyd gan y Comisiwn, am na chafwyd unrhyw gynrychiolaeth o'r fath a nodir yn adran 6 (2) Deddf Etholaethau Seneddol 1986, nad oedd gofyniad statudol i gynnal ymchwiliad lleol. At hynny, penderfynodd y Comisiwn, o dan yr holl amgylchiadau, na fyddent yn ymarfer eu rhyddid o dan adran 6 (1) i gynnal ymchwiliad.

Argymhellion terfynol

3. Ar ôl ystyried yn ofalus yr holl gynrychiolaethau a wnaed mewn ymateb i'w hargymhellion dros dro, roedd y Comisiwn yn fodlon mai'r argymhellion hynny oedd y ffordd orau o roi'r Rheolau ar waith. O ganlyniad, mae'r Comisiwn wedi cadarnhau eu hargymhellion dros dro, h.y. dim newid i etholaeth Brecon and Radnorshire a chynnwys adran etholiadol Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin o fewn etholaeth Montgomeryshire.

4. Mae argymhellion terfynol y Comisiwn ar gyfer sir gadwedig Powys, a fydd yn cael eu cynnwys yn eu hadroddiad i'w gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ddiwedd yr adolygiad cyffredinol ac a nodir ar y map sydd wedi'i atodi, ar gyfer y ddwy etholaeth ganlynol (caiff etholaethau 2003 eu dangos mewn cromfachau):

BRECON AND RADNORSHIRE COUNTY CONSTITUENCY (53,497) Adrannau etholiadol **Sir Powys**: Aber-craf, Bugeildy, Bronllys, Llanfair-ym-Muallt, Bwlch, Crucywel, Cwm-twrch, Diserth a Thre-coed, Felin-fach, Y Clas-ar-wy, Gwernyfed, Y Gelli, Trefyclo, Llanafan Fawr, Llanbadarn Fawr, Dwyrain Llandrindod/Gorllewin Llandrindod, Gogledd Llandrindod, De Llandrindod, Llanelwedd, Llangatwg, Llan-gors, Llangynllo, Llangynidr, Llanwrtyd, Llanllŷr-yn-Rhos, Maes-car/Llywel, Nantmel, Pencraig, Llanandras, Rhaeadr

Gwy, Llan-faes, St.John, St.Mary, Talgarth, Talybont ar Wysg, Tawe-Uchaf, Ynyscedwyn, Yscir, Ystradgynlais.

MONTGOMERYSHIRE COUNTY CONSTITUENCY (46,655) Adrannau etholiadol **Sir Powys**: Banwy, Aberriw, Blaen Hafren, Caersŵs, Yr Ystog, Dolforwyn, Ffordun, Glantwymyn, Cegidfa, Ceri, Llanbryn-mair, Llandinam, Llandrinio, Llandysilio, Llanfair Caereinion, Llanfihangel, Llanfyllin, Llanidloes, Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin, Llansanffraid, Machynlleth, Meifod, Trefaldwyn, Canol y Drenewydd, Dwyrain y Drenewydd, Gogledd y Drenewydd Llanllwchaearn, Gorllewin y Drenewydd Llanllwchaearn, De y Drenewydd, Rhiwcynon, Trewern, y Trallwng Castell, y Trallwng Gungrog, y Trallwng Llanerchyddol.

Cynrychiolaethau

5. Yn unol ag adran 5 Deddf 1986 a'r gweithdrefnau a osodwyd yn llyfryn arweiniad y Comisiwn a gyhoeddwyd yn 2003, nid oes gan y Comisiwn hawl i ystyried unrhyw gynrychiolaethau pellach mewn perthynas â'r argymhellion hyn. Pan fydd y Comisiwn wedi cwblhau ei adolygiad o Gymru gyfan, byddant yn cyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Gweithredu'r argymhellion

6. Mae'n ofynnol i'r Comisiwn gyflwyno'u hadroddiad ar yr adolygiad cyffredinol ar Gymru gyfan i'r Ysgrifennydd Gwladol ar ôl 16 Rhagfyr 2002 a chyn 17 Rhagfyr 2006. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol ddyletswydd statudol i osod adroddiad y Comisiwn gerbron y Senedd ynghyd â Gorchymyn drafft y Cyfrin Gyngor sy'n gwneud argymhellion y Comisiwn yn effeithiol gyda neu heb addasiadau. Os cynigir gwneud addasiadau, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd osod datganiad o resymau ar gyfer yr addasiadau. Caiff Gorchymyn drafft y Cyfrin Gyngor ei gyflwyno i'r Senedd i'w gymeradwyo, ac ar ôl i hynny gael ei wneud gan Ei Mawrhydi yn y Cyngor, ni ellir ei amau mewn unrhyw achosion cyfreithiol. Daw'r etholaethau newydd yn effeithiol yn yr etholiad cyffredinol nesaf yn dilyn gwneud Gorchymyn y Cyfrin Gyngor.

Map amlinellol

7. Caiff yr adrannau etholiadol eu dangos mewn amlinelliad ar y map sy'n rhan o'r ddogfen hon (sylwer ar y rhybudd hawlfraint isod sy'n ymwneud â'r map). Mae'r adrannau etholiadol ar y map wedi'u rhifo, a chaiff y rhifau a'r enwau hyn o'r adrannau etholiadol eu rhestru ar y dudalen gefn, ynghyd â ffigurau etholiadol 2003 y mae'n ofynnol i'r Comisiwn eu gweithredu yn ôl y gyfraith.

Hawlfraint y Goron

8. Mae'r map amlinellol sy'n rhan o'r ddogfen hon yn seiliedig ar ddata'r Arolwg Ordnans ac mae'n destun Hawlfraint y Goron. Bydd ei atgynhyrchu heb awdurdod yn torri Hawlfraint y Goron a gallai arwain at achos erlyn neu achos sifil. Dylai unrhyw un sy'n dymuno atgynhyrchu'r map amlinellol gysylltu, yn y lle cyntaf, â'r Swyddfa Hawlfraint yn Ordnance Survey, Romsey Road, Southampton SO16 4GU (ffôn 023 8079 2929)

Ymholiadau

9. I gael gwybodaeth bellach, cysylltwch â: Comisiwn Ffiniau i Gymru, Tŷ Caradog, 1 – 6 St Andrews Place, Caerdydd, CF10 3BE.

Ffôn 029 2039 5031
Ffacs 029 2039 5250
E-bost bcomm.wales@wales.gsi.gov.uk
Gwefan: www.bcomm-wales.gov.uk

Argymhellion Terfynol ar gyfer Powys
Final Recommendations for Powys



Sedd Seat	Enw a Theitl Name & Designation	2003
1	BRECON AND RADNORSHIRE CC	53,497
2	MONTGOMERYSHIRE CC	46,655

Seilir y map hwn ar fap yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi (H) Hawlfraint y Goron

This map is based on the Ordnance Survey map with the permission of the Controller of Her Majesty's Stationery Office (c) Crown Copyright

Powys

A.	Powys				
1.	Aber-craf	1,132	38.	Llangors	874
2.	Banwy	742	39.	Llangynllo	1,001
3.	Bugeildy	1,075	40.	Llangynidr	844
4.	Aberriw	1,027	41.	Llanidloes	2,247
5.	Blaen Hafren	1,718	42.	Llanrhaeadr-ym-Mochnant	1,191
6.	Bronllys	963	43.	Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin	1,358
7.	Llanfair ym Muallt	1,835	44.	Llansanffraid	1,429
8.	Bwlch	753	45.	Llanwrtyd	1,401
9.	Caersŵs	1,710	46.	Llanllŷr-yn-Rhos	914
10.	Yr Ystog	1,259	47.	Machynlleth	1,765
11.	Crucywel	2,367	48.	Maes-car/Llywel	1,394
12.	Cwm-twrch	1,522	49.	Meifod	991
13.	Diserth a Threcoed	939	50.	Trefaldwyn	983
14.	Dolforwyn	1,307	51.	Nantmel	1,163
15.	Felin-fach	997	52.	Canol y Drenewydd	2,267
16.	Ffordun	1,056	53.	Dwyrain y Drenewydd	1,565
17.	Glantwymyn	1,614	54.	Gogledd y Drenewydd Llanllwchaearn	1,644
18.	Y Clas-ar-wy	1,656	55.	Gorllewin y Drenewydd Llanllwchaearn	1,368
19.	Cegidfa	1,739	56.	De y Drenewydd	1,248
20.	Gwernyfed	1,189	57.	Pencraig	1,263
21.	Y Gelli	1,239	58.	Llanandras	2,021
22.	Ceri	1,541	59.	Rhaeadr Gwy	1,712
23.	Trefyclo	2,360	60.	Rhiwcynon	1,459
24.	Llanafanfawr	1,112	61.	Llan-faes	1,192
25.	Llanbadarn Fawr	858	62.	St.John	2,506
26.	Llanbryn-mair	753	63.	St.Mary	2,107
27.	Llandinam	1,119	64.	Talgarth	1,309
28.	Dwyrain Llandrindod/Gorllewin Llandrindod	1,014	65.	Talybont-ar-Wysg	1,550
29.	Gogledd Llandrindod	1,386	66.	Tawe-Uchaf	1,702
30.	De Llandrindod	1,673	67.	Trewern	933
31.	Llandrinio	1,496	68.	Y Trallwng Castell	1,093
32.	Llandysilio	1,260	69.	Y Trallwng Gungrog	1,884
33.	Llanelwedd	951	70.	Y Trallwng Llanerchyddol	1,744
34.	Llanfair Caereinion	1,228	71.	Ynyscedwyn	1,796
35.	Llanfihangel	821	72.	Yscir	868
36.	Llanfyllin	1,096	73.	Ystradgynlais	2,035
37.	Llangatwg	824			